**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION**

**CHIEF OFFICERS APPOINTMENTS COMMITTEE**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**3:00p.m., DYDD IAU, 27 MEHEFIN 2013**

**3:00p.m., THURSDAY, 27 JUNE 2013**

Lleoliad / Location

**YSTAFELL GLYDER FAWR**
**SWYDDFEYDD Y CYNGOR/COUNCIL OFFICES,**
**PENRALLT, CAERNARFON**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**GWYN PARRY WILLIAMS**

**(01286) 679665**

gwynparrywilliams@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd / Distributed 19.06.13

**PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION**

**CHIEF OFFICERS APPOINTMENTS COMMITTEE**

**Aelodaeth/Membership** (15)

**Plaid Cymru (7)**

Y Cynghorwyr/Councillors

Dyfed Edwards	Sian Gwenllian

Peredur Jenkins	Linda W. Jones

Liz Saville Roberts	Dyfrig Siencyn

R.H. Wyn Williams

**Annibynnol/Independent (4)**

Y Cynghorwyr/Councillors

Trefor Edwards	Jean Forsyth

Eric M. Jones	Angela Russell

**Llais Gwynedd (2)**

Y Cynghorwyr/Councillors

Alwyn Gruffydd	Aeron M. Jones

**Llafur/Labour (1)**

Y Cynghorydd/Councillor

D. Gwynfor Edwards

**Democratiaid Rhyddfrydol/Liberal Democrats (1)**

Y Cynghorydd/Councillor

Stephen Churchman

**Aelod Ex-officio/Ex-officio Member**

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor/Chairman and Vice-chairman of the Council

# RHAGLEN

**1. CADEIRYDD**

I ethol Cadeirydd am 2013/14

**2. IS-GADEIRYDD**

I ethol Is-gadeirydd am 2013/14

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatgan o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**6. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2013 fel rhai cywir (copi yma – papur gwyn)

**7. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma'n berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag unigolion penodol a bod gan yr unigolion hynny hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig ac yn gorbwyso unrhyw fudd cyhoeddus o'i ddatgelu

**8. RHESTR FER AR GYFER PENODI CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL**

Ystyried ceisiadau gan ymgeiswyr (manylion i'w cyflwyno yn y cyfarfod)

# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION, 13.02.13

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Linda W. Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr Dyfed Edwards, Trevor Edwards, Jean Forsyth, Peredur Jenkins, Aeron M. Jones, Eric M. Jones, Liz Saville Roberts, Angela Russell, R.H. Wyn Williams a Huw Edwards (aelod ex-officio)

**Hefyd yn Bresennol:** Harry Thomas (Prif Weithredwr), Geraint Owen (Uwch Reolwr Adnoddau Dynol) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Stephen Churchman, Selwyn Griffiths, Sian Gwenllian, Dyfrig Siencyn

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2012 fel rhai cywir.

**3. POLISI TÂL AR GYFER PRIF SWYDDOGION**

Cyflwynwyd adroddiad y Prif Weithredwr bod rhwymediageth gyfreithiol ar bob Cyngor, am y tro cyntaf y llynedd, i fabwysiadu polisi tâl ar gyfer Prif Swyddogion ar sail flynyddol. Yn unol â gofynion y ddarpariaeth statudol, swyddogaeth i'r Cyngor llawn ddylai hwn fod. Wrth fabwysiadu polisi tâl ar gyfer 2012/13, penderfynodd y Cyngor llawn ofyn i'r pwyllgor hwn adolygu cynaladwyedd y polisi tâl i'r dyfodol a chyflwyno adroddiad yn ôl i'r Cyngor. Gofynnodd i'r pwyllgor gynghori'r Cyngor ar ei bolisi tâl ar gyfer Prif Swyddogion yn 2013/14 ac fe'i ystyrid gan y Cyngor llawn ar 28 Chwefror 2013. Er mwyn gwneud hynny, rhaid i'r pwyllgor ystyried effeithiau aildrefnu gwasanaethau a ddigwyddodd yr haf diwethaf pan grewyd y swydd newydd Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden er mwyn ymgymryd â swyddogaethau'r cyn Bennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a nifer o swyddogaethau'r Pennaeth Gwasanaethau Darparu. Pan wnaed y penodiad i'r swydd, penderfynwyd defnyddio cyflog y cyn Bennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol fel cyflog tros dro i'r swydd newydd gan aros am arfarniad annibynnol o'r cyflog priodol.

Comisiynwyd Hay Group i arfarnu rolau'r Penaethiaid Addysg, Gofal Cwsmer, Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Strategol a Gwella a Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden yn sgîl cynnydd mewn cyfrifoldebau. Argymhellion yr arfarniad oedd nad oedd newid digonol i rolau'r

Penaethiaid Addysg, Gofal Cwsmer, Priffyrdd a Bwrdeistrefol a Strategol a Gwella i gyfiawnhau graddfa newydd, ond o safbwynt y Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden, mae'r dyletswyddau ychwanegol i rai yr hen swydd gwasanaethau cymdeithasol yn sylweddol ac mae cyfanswm pwyntiau Hay Group yn sylweddol uwch na'r swydd pennaeth gwasanaeth nesaf ar y raddfa. Maent felly'n argymell cyflog yn defnyddio yr un polisi (chwartel isaf) ar gyfer HS3 a swyddi Cyfarwyddwyr. Wrth osod y polisi hwn i faint arfarniad y swydd, mae'n cyfartalu i gyflog o £80,972. 'Roedd hyn yn cymharu â £75,511 ar gyfer y cyflog tros dro a ddefnyddiwyd ar y penodiad.

Yn sgîl y cyfrifoldebau ariannol ychwanegol, cyfrifoldeb uniongyrchol am £29m ychwanegol a'r cyfrifoldebau gweithlu ychwanegol, dros 1,000 o staff ychwanegol, argymhellodd y dylid derbyn argymhellion Hay Group. Mae'r arbedion a ddaeth yn sgîl dileu'r swydd Pennaeth Gwasanaeth Darparu, sef £120,000 am flwyddyn lawn yn fwy na diwallu'r gost ychwanegol o £5,861 ac argostau am flwyddyn lawn (£3,419 ar gyfer 2012/13).

Tynnodd sylw bod y polisi tâl presennol yn nodi –
a) Y dylid talu Cyfarwyddwyr ar gyfradd union dan chwartel isaf y farchnad sector cyhoeddus, a olygai bod 75% o'r sector sydd wedi eu harfarnu fel bod ganddynt swyddi o faint cyfartal yn cael mwy o gyflog.
b) Bod y Penaethiaid Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden hefyd yn cael eu talu ar lefel y chwartel isaf.
c) Bod y Penaethiaid Gwasanaeth eraill yn cael eu talu ar ganolrif y farchnad sector cyhoeddus ar gyfer swyddi o faint tebyg.

Er bod nifer o ffactorau sy'n effeithio ar allu'r Cyngor i ddenu a chadw uwch reolwyr, 'roedd o'r farn bod y polisi tâl yn gyffredinol gynaliadwy ar hyn o bryd ar gyfer y Penaethiaid Gwasanaeth hynny a delir ar y lefel canolfrif. Argymhellodd dim newid i'r swyddi hyn.

Nododd bod y sefyllfa ynglyn â'r Cyfarwyddwyr a gweddill y Penaethiaid Gwasanaeth yn aros. Mae talu ar y lefel chwartel isaf yn dod â risgiau i'r Cyngor e.e. mae'r Cyfarwyddwyr ar y cyflog uchaf ym mhum awdurdod arall Gogledd Cymru a Phowys yn derbyn cyflog ar lefel uwch na Chyfarwyddwyr Gwynedd – hyd yn oed ar ôl y newid diweddar. Mae bod â'r cyflog isaf mewn grŵp o awdurdodau, gyda Gwynedd yn un o'r awdurdodau mwyaf, yn codi risgiau yn y tymor canolig. Fodd bynnag, 'roedd o'r farn, ar ôl ystyried y mater, y gellir fforddio gohirio'r mater am o leiaf blwyddyn arall ac argymhellodd na fyddai unrhyw newid yn 2013/14.

Nododd ymhellach bod angen rhoddi sylw i amseriad ailraddio'r cyflog gwirioneddol i'r meincnodau. 'Roedd angen i'r Cyngor fod yn fwy eglur ynglyn â'r mater hwn. O ystyried bod ailraddio wedi digwydd eleni, argymhellodd bod yr ailraddio nesaf yn digwydd ym mlwyddyn ariannol 2015/16.

Yn dilyn trafodaeth â'r Swyddog Monitro 'roedd angen ychwanegu un argymhelliad sef gofyn i'r Cyngor awdurdodi'r pwyllgor hwn i gadw'r polisi tâl dan arolwg gan wneud argymhellion i'r Cyngor fel bo'n briodol.

Gwahoddwyd aelodau i gyflwyno sylwadau.

Tynnwyd sylw gan aelod nad oedd y polisi tâl a fabwysiadwyd y llynedd ar gael ar ffurf copi caled ar gyfer y cyfarfod heddiw. Cytunwyd i'w ddosbarthu i'r aelodau. Nododd y Prif Weithredwr nad oes llawer o wahaniaeth rhyngddo a'r polisi tâl y cyfeirir ato yng nghymal 3.1 o'r adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod ynglyn â'r arbedion o £120,000 a ddaeth yn sgil dileu'r swydd Pennaeth Gwasanaeth Darparu, hysbysodd y Prif Weithredwr y gwireddwyd hyn drwy ddileu'r swydd a hefyd swydd yr ysgrifenyddes yn ogystal ag ychydig o gostau teithio.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at Fesur Gwasanaethau Cymdeithasol a gyhoeddwyd yn ddiweddar a bod y gofynion sy'n gysylltiedig ag ef yn rhai pell-gyrhaeddol. 'Roedd gwaith ar y gweill ar hyn o bryd yn rhanbarthol ac yn genedlaethol parthed integreddio mwy ar wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Cyfeiriodd at gais am brosiect gwerth £1.8m ar draws y gogledd i ymchwilio i ail-ddylunio a.y. Nododd y bydd rhagor o waith ataliol yn y maes iechyd a'r henoed.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed adolygiad cyflog y Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden, hysbysodd y Prif Weithredwr gan y crewyd swydd newydd nid oedd cyflog ar ei gyfer oherwydd nad oedd wedi ei arfarnu. Cytunwyd i'r penodiad ar sail cyflog tros dro. Cyfeiriodd hefyd at y penderfyniad i roddi mandad i ddeilydd newydd y swydd i edrych ar strwythur yr adran.

Gofynnodd aelod os yw'r cyfarfod heddiw yn gynamserol gan ei bod yn ofynnol i swyddog fod yn y swydd am chwe mis cyn y ceid codiad cyflog. Mewn ymateb, hysbysodd y Prif Weithredwr nad oedd hyn yn berthnasol yn yr achos hwn oherwydd y dynodir cyflog ar gyfer swydd. Rhoddwyd cyflog tros dro i'r swydd hyd nes y gwnaed yr arfarnu yn unol â'r gyfundrefn a weithredir ar gyfer pob swyddog arall. Ar y pryd 'roedd brys i lenwi'r swydd ac felly ni chafwyd cyfle i'w arfarnu.

'Roedd aelod o'r farn bod amseriad yr adroddiad wedi creu cryn anniddigrwydd oherwydd y codiad o 7% yng nghyflogau Prif Swyddogion a bod cyflogau gweddill y staff wedi eu rhewi.

'Roedd aelod arall o'r farn bod y cyfrifoldebau a oedd ynghlwm â'r swydd yn ormod i un swyddog.
Nododd aelod bod angen sicrhau cyflog sy'n cyfateb i'r swydd.

Nododd aelod bod pob Cyngor yn unigol yn gorfod pennu'r polisi tâl ac 'roedd o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru fod yn gyfrifol am hynny ac nid y gwahanol gynghorau.

'Roedd aelod o'r farn y dylid gohirio'r polisi tâl am flwyddyn er cael gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru ar y mater.'Roedd aelod arall, fodd

bynnag, yn anghydweld â'r awgrym hwn gan bod dyletswydd ar y Cyngor i bennu'r polisi tâl ar gyfer y swydd.

Nododd yr Uwch Reolwr Adnoddau Dynol ers y mabwysiadwyd yr adolygiad tâl lleol yn 2008, mae unrhyw unigolyn lle mae newid i'w swydd ddisgrifiad yn gorfod cael ei ail-arfarnu sy'n arwain unai bod y cyflog yn aros fel y mae neu'n haeddu cyflog uwch, yn ddibynnol ar lefel pwyntiau'r arfarniad. Yn achos y swydd dan sylw, gwnaed arfarniad o'r swydd newydd a gynhwyswyd mewn swydd ddisgrifiad unigolyn o fewn y Cyngor, ac mae'r ffordd a weithredodd y Cyngor yn gyson â phawb arall o fewn y Cyngor.

Cynigiodd aelod welliant sef y dylid gohirio gosod tâl y swydd Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden a arfarnwyd ar £80,972 o 1 Medi 2012, am 6 mis, er gweld datblygiad y swydd a'r adran.

Syrthiodd y gwelliant.

Cynigiodd aelod arall welliant sef peidio â gosod tâl y swydd Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden ar £80,972 o 1 Medi 2012 ond yn hytrach glynu at y cyflog tros dro o £75,511 a osodwyd adeg y penodiad. Ni chafodd yr aelod eilydd i'w gynnig.

**PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor llawn ar 28 Chwefror 2013 –**
**a) Y dylid gosod tâl y swydd Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden sydd newydd ei harfarnu ar £80,972 o 1 Medi 2012 ac adolygu'r sefyllfa ymhen chwe mis.**
**b) Nad oes unrhyw newid i fandiau cyflog gweddill y Penaethiaid Gwasanaeth a effeithiwyd gan yr ailstrwythuro y llynedd.**
**c) Nad oes unrhyw newid i'r polisi tâl cyffredinol am y flwyddyn nesaf yn nhermau'r lefelau meincnod h.y. lefel canolrif a chwartel isaf ar gyfer yr un swyddi.**
**ch) Bod yr ailraddio o dâl gwirioneddol i lefelau meincnod yn digwydd nesaf yn 2015/16.**
**d) Y dylid awdurdodi'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion i gadw'r polisi tâl dan arolwg gan wneud argymhellion i'r Cyngor fel bo'n briodol.**

**<u>Mater ychwanegol – Polisi Tâl y Prif Weithredwr</u>**

Nodwyd bod angen adolygu Polisi Tâl y Prif Weithredwr.

**PENDERFYNWYD cynnal cyfarfod o'r pwyllgor i adolygu polisi tâl y Prif Weithredwr.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30a.m. a daeth i ben 11.45am